

Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

Penallta House,
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

Ty Penallta,
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG



www.caerphilly.gov.uk
www.caerffili.gov.uk

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Amy Dredge
(Rhif Ffôn: 01443 863100 Ebst: dredge@caerphilly.gov.uk)

Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Hydref 2018

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod **Cabinet fel Ymddiriedolwyr Sefydliad y Glowyr Coed Duon** yn cael ei gynnal yn **Ystafell Sirhywi, Tŷ Penallta, Tredomen, Ystrad Mynach ar Dydd Mercher, 17eg Hydref, 2018 am 11.00 am**.(neu'n syth ar ôl yr Cabinet) i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. Gall cynghorwyr a'r cyhoedd sy'n dymuno siarad am unrhyw eitem wneud hynny drwy wneud cais i'r Cadeirydd. Mae croeso i chi hefyd ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Mae'r ddau gais hyn yn gofyn am gyfnod rhv budd o 3 diwrnod gwaith a bydd cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu os gofynnir amdano.

Mae pob cyfarfod Pwyllgor yn agored i'r Wasg a'r Cyhoedd. Gofynnir i arsylwyr a chyfranogwyr ymddwyn gyda pharch ac ystyriaeth at eraill. Sylwer y bydd methu â gwneud hynny yn golygu y gofynnir i chi adael y cyfarfodydd ac efallai y cewch eich hebrwng o'r safle.

Yr eiddoch yn gywir,

Christina Harrhy
PRIF WEITHREDWR DROS DRO

A G E N D A

Tudalennau

- 1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb
- 2 Datganiadau o Ddiddordeb.

Councillors and Officers are reminded of their personal responsibility to declare any personal and/or prejudicial interest(s) in respect of any item of business on this agenda in accordance with the Local Government Act 2000, the Council's Constitution and the Code of Conduct for both Councillors and Officers.

A greener place Man gwyrddach



I gymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:-

- | | | |
|---|---|-------|
| 3 | Cabinet fel ymddiriedolwyr Sefydliad y Glowyr Coed Duon a Thiroedd Hamdden Amrywiol a gynhaliwyd ar 11eg Gorffennaf 2018. | 1 - 4 |
| 4 | Adroddiad Cynnydd Sefydliad y Glowyr Coed Duon. | 5 - 8 |

Cylchrediad:

Cynghorwyr

C.J. Cuss, N. George, C.J. Gordon, Mrs B. A. Jones, P.A. Marsden, S. Morgan, L. Phipps, D.V. Poole a Mrs E. Stenner,

A Swyddogion Priodol.

SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar www.caerffili.gov.uk. ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu.

Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn ar ein gwefan <http://www.caerffili.gov.uk/Pwyllgor/Preifatrwydd> neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio griffd2@caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 863028.



CABINET FEL YMDDIRIEDOLWYR SEFYDLIAD Y GLOWYR COED DUON A THIROEDD HAMDDEN AMRYWIOL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER 11EG GORFFENAF 2018 AM 2.35 P.M.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd D.V. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C.J. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), ac E.Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau), P. Hudson (Rheolwr Marchnata a Digwyddiadau), M. Headington (Rheolwr Mannau Gwyrdd a Gwasanaethau Trafnidiaeth), T. Broadhurst (Rheolwr Ystadau), R. Crane (Prif Gyfreithiwr), G. Ballisat (Rheolwr Gwasanaethau'r Theatr a'r Celfyddydau) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs P.Marsden (Addysg a Chyflawniad), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai).

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

3. CABINET FEL YMDDIRIEDOLWYR SEFYDLIAD Y GLOWYR COED DUON - 13EG RHAGFYR 2017.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13eg Rhagfyr 2017 (rhifau cofnod 1 - 4) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

4. SEFYDLIAD Y GLOWYR COED DUON - ADRODDIAD CYNNYDD A DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2018/2019

Croesawodd y Cabinet Mr G. Ballisat, Rheolwr y Theatr a'r Gwasanaeth Celfyddydau a benodwyd yn ddiweddar i'w gyfarfod cyntaf. Rhoddodd ddiweddariad o'r adroddiad i'r Cabinet fel Ymddiriedolwyr Sefydliad y Glowyr Coed Duon ar y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/2019 a diweddariad ar y gweithgareddau gweithredol sydd ar y gweill ar hyn o bryd ac a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod ariannol presennol.

Cafodd Sefydliad y Glowyr Coed Duon ei drosglwyddo fel ymddiriedolaeth elusennol i Gyngor Bwrdeistref Islwyn (ac yn ddiweddarach i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) ym 1990. Nodir amcanion yr elusen yn y Weithred Ymddiriedolaeth ddyddiedig 15fed Hydref 1990. Cofrestrwyd Sefydliad y Glowyr Coed Duon fel elusen gyda'r Comisiwn Elusennau (a gofrestrwyd fel Canolfan Gelfyddydau Coed Duon) ar 13eg Tachwedd 1990. Pwrpas yr elusen yw hyrwyddo, gwella, datblygu, cynnal a ymestyn ymwybyddiaeth a chyfranogiad y cyhoedd mewn, ac annog gwerthfawrogiad o'r gelf a gwyddoniaeth o, cerddoriaeth, dawn, drama, llenyddiaeth a'r celfyddydau gweledol. Mae hefyd yn hyrwyddo, trwy weithgareddau priodol, addysg a hyfforddiant, gallu meddyliol ac ysbrydol pobl sy'n ddi-waith, pobl ifanc a phlant cyn ysgol. Yn ogystal, ei bwrpas yw addysgu'r cyhoedd yn naearyddiaeth, hanes a phensaernïaeth yr ardal ac mae'n nodi cyfrifoldeb y Sefydliad o ran diogelu rhag camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

Eglurwyd bod gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol fel ymddiriedolwr i fod yn gyfrifol am ac i adrodd ar yr Elusen ar wahân ac yn unol â Deddf Elusennau 2011. Rhaid i bob Elusen gynhyrchu datganiadau blynyddol o gyfrifon o dan y Gyfraith Elusennau. Roedd yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer Sefydliad y Glowyr Coed Duon ar gyfer 2016/2017 ynghlwm wrth yr adroddiad a gymeradwywyd gan y Cabinet fel Ymddiriedolwyr ar y 13eg Rhagfyr 2017. Roedd aelodau'n falch i nodi bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn darparu cymhorthdal ariannol blynyddol i Sefydliad y Glowyr Coed Duon fel cyllideb refeniw, sydd wedi bod yn lleihau yn y blynyddoedd diwethaf, o £365,279 yn 2013/2014, i £324,362 ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod 2018/19. Cyfeiriwyd yr aelodau at Atodiad 1 yr adroddiad a oedd yn rhoi dadansoddiad cryno o incwm a gwariant ar gyfer y gyllideb sydd i ddod. Mae cymhorthdal cyfredol yr awdurdod yn cynrychioli 42% o'r costau rhedeg cysylltiedig gan ystyried derbyniadau, llogi ystafelloedd, cyfrifon masnachu ac incwm grant. Mae Sefydliad y Glowyr Coed Duon yn cyflogi 9.3 o staff CALI gyda chyllideb cyflogaion o £345,244.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn cynnwys Sefydliad y Glowyr Coed Duon fel rhan o'i Bortffolio Sefydliadau a Ariennir gan Refeniw yn 2016/2017. Mae hyn yn rhoi grant blynyddol o £129,375 i ganiatáu datblygu rhaglen artistig mewn meysydd her megis 'drama, dawn a cherddoriaeth anfasnachol' ac i gefnogi cyfleoedd artistiaid lleol trwy waith cyd-gynhyrchu. O ran y cynnydd a wnaed, esboniwyd y bydd rhan o'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer caffael system tocynnau newydd ar gyfer y lleoliad. Mae angen diweddarau system tocynnau cyfredol Sefydliad y Glowyr Coed Duon a chyda nifer cynyddol o leoliadau sy'n gwthio gwerthiannau ar-lein, nid yw system Sefydliad y Glowyr Coed Duon yn caniatáu i gwsmeriaid ddewis eu seddi eu hunain, felly nid yw yn annog archebu ar-lein. Bydd lansio'r system docynnau newydd yn rhedeg ochr yn ochr â lansio gwefan Sefydliad y Glowyr Coed Duon sydd ei angen yn fawr. Mae'r rhaglen flynyddol a gynhelir yn Sefydliad y Glowyr Coed Duon yn cynnwys tua 200 o sioeau a digwyddiadau. Dros y flwyddyn ariannol 2017/18 mynychodd cyfanswm o 31,325 o bobl ddigwyddiadau dros gyfnod y rhaglen, lleihad o 5.6% dros y flwyddyn flaenorol (33,209). Nodwyd trosolwg o'r digwyddiadau a gynhaliwyd yn y lleoliad yn ystod y cyfnod hwn ym mharagraff 4.13.4. yn yr adroddiad.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth. Trafododd y Cabinet fel Ymddiriedolwyr Sefydliad y Glowyr Coed Duon gyfeiriadedd ardal y bar sydd wedi'i leoli y tu ôl i'r prif awditoriwm a'r posibilrwydd o agor y bar o'r newydd i'w wneud yn fwy deniadol. Cadarnhawyd yr ymgynghorwyd â'r Prif Swyddog Cadwraeth a Dylunio ar hyn gyda chynigion eraill, a fynegodd ei phryderon gan y byddai'r newidiadau yn niweidio'r gofod ar y pen grisiau ac yn effeithio ar ei gymeriad pensaernïol a hanesyddol arbennig. Mae hi hefyd wedi ymgynghori â Chadw ar y cynigion hyn ac maent wedi cadarnhau y byddai'r gwaith yn annhebygol o dderbyn caniatâd adeilad rhestredig. Mae cyfarfod wedi'i drefnu gyda Chadw ar 30ain Gorffennaf 2018 i ystyried y mater hwn ymhellach a bydd diweddariad yn cael ei adrodd yng nghyfarfod nesaf y Cabinet fel Ymddiriedolwyr Sefydliad y Glowyr Coed Duon.

Bu'r Aelodau hefyd yn trafod hysbysebu a holi sut mae'r lleoliad yn cael ei hyrwyddo. Eglurwyd bod Swyddogion yn parhau i gyhoeddi eu llyfryn ac fe'i dosbarthir i tua 10,000 o bobl a ymwelodd â'r lleoliad yn y gorffennol dros y ddwy i dair blynedd ddiwethaf. Mae negeseuon e-bost hefyd yn cael eu hanfon at fynychwyr blaenorol ac mae hysbysebion achlysurol yn cael eu rhoi mewn papurau newydd lleol. Mae posteri gan y cynhyrchwyr hefyd yn cael eu dosbarthu. Wrth symud ymlaen, bydd cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio i hyrwyddo'r Sefydliad yn unol â'r wefan newydd. Awgrymodd yr Aelodau ffurfiau eraill o hysbysebu a oedd yn cynnwys defnyddio Papur 'Newslin' y Cyngor sy'n cael ei ddosbarthu i bob cartref ar draws y Fwrdeistref, gwneud defnydd o Ganol Tref Coed Duon (hynny yw, siopau a'r llyfrgell) a Dragon Circle. Rhoddwyd pwyslais ar beidio â chyfyngu hysbysebu i Ganolfan Tref Coed Duon ei hun a thrwy hysbysebu i gynulleidfa ehangach y Sefydliad mewn trefi eraill fel Bargod a Rhisga gallai gynnig potensial enfawr. Eglurwyd na ellir defnyddio'r Hysbysfwrdd y tu allan i'r Sefydliad gan nad yw hyn yn perthyn i berchnogaeth Caerffili. Mae diffyg maes parcio penodol wedi atal Sefydliad y Glowyr Coed Duon rhag gosod arwyddion twristiaeth gwyn ar frown i gyfeirio ymwelwyr i'r Sefydliad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth ac yn ddarostyngedig i'r uchod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD yn amodol ar argymhelliad ychwanegol ym mharagraff 10.2. i gynnwys adroddiadau cynnydd gan Sefydliad y Glowyr Coed Duon bob chwarter yn hytrach na chwe mis, ac am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog: -

- (i) nodi cynnwys yr adroddiad;
- (ii) dylid cyflwyno adroddiadau cynnydd gan Sefydliad y Glowyr Coed Duon bob chwarter yn hytrach na chwe mis.

5. ELUSENNAU ARDALOEDD HAMDDEN

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet fel Ymddiriedolaeth Tiroedd Hamdden Amrywiol i swyddogion ddod i ohebiaeth a thrafodaeth gyda'r Comisiwn Elusennau. Bydd hyn yn caniatáu i'r posibilrwydd o wneud ceisiadau am gynlluniau sy'n newid neu yn disodli dogfennau llywodraethol yr elusennau (Atodir i'r adroddiad) ("yr Elusennau") er mwyn cynnwys pŵer gwaredu. Bydd cynnwys pŵer o'r fath yn galluogi gosod neu waredu tir arall, os yw'n briodol i wneud hynny, i hyrwyddo amcanion yr elusennau hynny wrth ddarparu hamdden gyhoeddus.

Eglurwyd mai'r Cyngor yw'r Ymddiriedolwr Corfforaethol ar gyfer yr Elusennau ar hyn o bryd. Mae gan yr Elusennau adnoddau ariannol cyfyngedig i wneud gwelliannau i'r cyfleusterau presennol. Yn y blynyddoedd diwethaf, bu tuedd tuag at welliannau a wneir gan grwpiau defnyddwyr neu fentrau cymdeithasol sy'n gallu sicrhau cyllid grant o ffynonellau allanol. Yn nodweddiadol, mae'n ofyniad bod arian o'r fath i fod â diddordeb yn y tir dan sylw. Ar y lleiaf, byddai hyn fel arfer yn gofyn am brydles gydag isafswm o 7 mlynedd. Ystyrir mai tir hamdden yr Elusennau a gynhelir gan y Cyngor fel Ymddiriedolwr yw 'tir dynodedig' neu 'dir penodol', sy'n dir sy'n cael ei ddal ar gyfer amcanion penodol elusen. Nid yw llawer o ddogfennau llywodraethol yr Elusennau yn cynnwys pŵer i waredu tir elusen, sy'n golygu nad yw'r Cyngor fel Ymddiriedolwr yn gallu gosod y tir pan fydd yn derbyn cais gan drydydd parti.

Dywedwyd wrth y Cabinet ei bod hi'n bosib y gellid cael pŵer o'r fath ar gais i'r Comisiwn Elusennau am gynllun newydd sy'n cynnwys pŵer gwaredu, a fyddai'n disodli cynllun presennol neu ddogfennau llywodraethu eraill sy'n nodi rheolau ac amcanion yr elusen dan sylw. Pe bai wedi'i gael, byddai pŵer o'r fath yn caniatáu i'r Cyngor fel Ymddiriedolwr ystyried ceisiadau gan fentrau cymunedol a defnyddwyr y tir hamdden a allai gael arian grant ar gyfer gwelliannau i'r cyfleusterau presennol, ond na all ddiogelu'r fath gyllid heb drefniant prydles ffurfiol. Er na fyddai pŵer yn gwarantu y byddai gosodiad yn cael ei ganiatáu, byddai'n caniatáu i'r cyngor ganiatáu diddordeb o'r math ar yr amod y credid ei fod er lles gorau'r elusen dan sylw.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad a phwysleisiodd bwysigrwydd pobl leol sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ynglŷn â chyfleusterau a mwynderau lleol. Gofynnwyd i gyflwyno adroddiad a fydd yn ystyried y Cabinet fel Ymddiriedolwyr Tiroedd Hamdden Amrywiol yn datganoli eu rheolaeth Ymddiriedolwyr i rymuso cymunedau lleol i redeg cyfleusterau lleol. Eglurwyd, er bod yr adroddiad yn gyffredinol, wrth symud ymlaen, bydd Elusennau unigol yn cael eu hystyried yn ôl eu rhinweddau eu hunain ac fe ddaw adroddiadau pellach ar ôl cynnal deialog gyda'r Comisiwn Elusennau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth ac yn ddarostyngedig i'r uchod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD yn amodol ar argymhelliad ychwanegol ym mharagraff 10.3, i gynnwys cyflwyno adroddiad a fydd yn ystyried y Cabinet fel Ymddiriedolwyr Tiroedd Hamdden Amrywiol yn datganoli eu rheolaeth Ymddiriedolwyr i rymuso cymunedau lleol i redeg cyfleusterau lleol, ac am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog: -

- (i) Awdurdodi'r Swyddogion i roi gohebiaeth a thrafodaethau gyda'r Comisiwn Elusennau ynghylch y posibilrwydd o wneud cais am gynllun elusennol neu gynlluniau newydd ar gyfer ei elusennau tiroedd hamdden sy'n darparu pwerau rheoli gwell a phŵer gwaredu;
- (ii) yn amodol ar ganlyniad gohebiaeth a thrafodaethau gyda'r Comisiwn Elusennau, cyflwyno adroddiadau pellach i'r Cabinet, yn eistedd fel Ymddiriedolwr, gan geisio awdurdod i wneud cais i'r Comisiwn Elusennau ar gyfer cynlluniau newydd mewn perthynas ag elusennau tiroedd hamdden penodol;
- (iii) cyflwyno adroddiad a fydd yn ystyried y Cabinet fel Ymddiriedolwyr Tiroedd Hamdden Amrywiol yn datganoli eu rheolaeth Ymddiriedolwyr i rymuso cymunedau lleol i redeg cyfleusterau lleol.

Terfynwyd y cyfarfod am 3.10pm

CADEIRYDD



CABINET AS TRUSTEES OF BLACKWOOD MINERS INSTITUTE – 17TH OCTOBER 2018

SUBJECT: BLACKWOOD MINERS' INSTITUTE PROGRESS REPORT

REPORT BY: INTERIM CORPORATE DIRECTOR COMMUNITIES

1. PURPOSE OF REPORT

- 1.1. To advise Cabinet as Trustees of the Blackwood Miners' Institute on progress of the operational activities for the financial year ahead 2018/2019.

2. SUMMARY

- 2.1 Blackwood Miners' Institute was conveyed as a charitable trust to Islwyn Borough Council, (and subsequently to Caerphilly County Borough Council) and was registered as a charity on 13th November 1990.
- 2.2 The local authority, acting as sole corporate trustee has a legal duty to operate the charity in accordance with the governing document and has a legal obligation to account for the charity's finances in accordance with the Charity Act 2011.
- 2.3 At the July meeting of the Trustees it was agreed that more frequent meetings should be held to update the Trustees on a number of operational activities and proposals intended to improve the sustainability of Blackwood Miners Institute as a venue.
- 2.4 The purpose of this report is to update the Cabinet as Trustees of Blackwood Miners' Institute on the proposals discussed in the July meeting.

3. LINKS TO STRATEGY

- 3.1 The purpose of this report is to act as Trustee of the Blackwood Miners' Institute and in that capacity to consider all matters in connection with the management, use and development of the Institute in accordance with the provisions of the Trust Deed.
- 3.2 The Arts Council for Wales' vision is a creative Wales where the Arts are central to the life of our nation.
- 3.3 Culture and Arts are key elements in the Council's Regeneration Strategy in regenerating communities and raising aspirations and contribute to key objectives / goals of the Well-being of Future Generations (Wales) Act.
- 3.4 Increasing visitor numbers to the County Borough contributes to the Council's well-being and corporate plans.

4. THE REPORT

4.1 As part of the Council's ongoing Medium Term Financial Plan (MTFP) there is pressure to continue to reduce the annual subsidy that the Authority provides to Blackwood Miners' Institute and staff are working towards identifying how this can be achieved.

4.2 The Arts Council of Wales has included Blackwood Miners' Institute as part of its Portfolio of Revenue Funded Organisations since 2016/17, providing an annual grant of £129,375 to allow the development of an artistic programme in areas of challenge such as 'drama, dance and non-commercial music' and to support local artist opportunities through co-production work.

4.3 TICKET SYSTEM & WEBSITE

The Council's Head of Procurement has recently signed off the business case for a new cloud based box office system which can now proceed to award stage and project implementation.

Online ticket sales form a low percentage in terms of BMI's overall ticket sales and the upgrade is necessary in order to increase the percentage of bookings undertaken online and to allow the potential for efficiency savings from the current box office arrangements.

A brief is currently with IT to progress an updated website with the aim of launching a new website that will incorporate the new ticketing system.

4.4 BAR AREA

Following a visit to Blackwood Miners' Institute by the Conservation Officer, the Development Control Manager and the Building Control Team Leader, a number of options were looked at in relation to improving the customer experience in and around the bar area along with improving signage at the front of the building and the following have been agreed:

Doors between foyer and bar (first floor): with the installation of magnetic door locks linked to the fire alarm system, it would be possible to hold these doors in an open position when the public are using the bar which would help to increase circulation.

The Lounge (first floor): the doors can be reversed so that they open into the room and held open with magnetic door locks as above and would help with circulation. Details of the alterations associated with points 1 and 2 will be needed by the Planning Department to assess whether they need listed building consent and whether they will be satisfactory from a Building Regulations point of view.

4.5 ADVERTISING & PROMOTION

Theatre advertisement on opposite side of road (or elsewhere in the town): this is being considered by the Development Control Manager. This work would require advertisement consent and a licence from the highway authority and the setting of the listed building would have to be considered.

Signs on the front of the building: the possibility of installing hanging banners on the front of the building is being investigated that would advertise the venue (as opposed to specific shows) and would be located within the existing plain pilasters at first and second floor. This work would require listed building consent, but not advertisement consent.

Existing brass letters spelling out Blackwood Miners' Institute on either side of the building: The possibility of illuminating this signage is being investigated by the Development Control Manager along with the pruning of trees in front of the southern side of the building along with the relocation of the adjacent hoarding. The means of illumination will need listed building consent.

Signs on the front railings: the Development Control Manager is investigating the possibility of having banners fixed to the front railings with Highways.

Advertisement on hoardings around new housing development to be erected adjacent to Blackwood Miners' Institute: this possibility is being investigated with the developers.

Adverts on rear fence at the rear of the Blackwood Miners' Institute building: these would benefit from the same rights as set out above but the impact on the visual amenity of the area would need to be assessed in relation to the size of the proposed panels.

4.6 EVENTS OVERVIEW

A flavour of some of the forthcoming events being held at Blackwood Miners' Institute includes live boxing, 'Public Service Broadcasting' (sold out), the 'Dreamboys', 'Cosi fan Tutte', 'Classic Rock Show' and a number of shows that aim to maximise the secondary spend from near capacity audiences.

Some thought should be given to 2020 and the bi-Centenary of Blackwood's formation as a town and what part BMI can play in any future celebrations.

5. WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

- 5.1 This report is being considered by Cabinet acting as corporate trustee and not in its capacity as the Local Authority.

6. EQUALITIES IMPLICATIONS

- 6.1 This report is for information purposes, so the Council's EqIA process does not need to be applied.

7. FINANCIAL IMPLICATIONS

- 7.1 The current level of financial subsidy provision from the Council of £324,362 has been set in line with the agreed Council provision for wage and consumer inflation.

8. PERSONNEL IMPLICATIONS

- 8.1 There are no personnel implications from this report.

9. CONSULTATIONS

- 9.1 The comments from consultees have been included in this report.

10. RECOMMENDATIONS

- 10.1 That Cabinet as Trustees of Blackwood Miners' Institute note the information set out in the report.

11. REASONS FOR THE RECOMMENDATIONS

- 11.1 The report is an information item and no recommendations are being made for consideration.

12. STATUTORY POWER

12.1 Charities Act 2011 and Local Government Act 1972

Author: Giles Ballisat, Theatre and Arts Service Manager

Consultees:

| | |
|-----------------|--|
| Clr S Morgan | Cabinet Member – Economy, Infrastructure, Sustainability and Wellbeing and Future Generations Champion |
| Mark S Williams | Interim Corporate Director Communities |
| Rhian Kyte | Head of Regeneration & Planning |
| Tim Stephens | Development Control Manager |
| Nicole Scammell | Head of Corporate Finance and S151 Officer |
| Steve Harris | Interim Head of Business Improvement Services |
| Lisa Lane | Interim Monitoring Officer |
| Paul Hudson | Destination & Events Manager |
| Mike Eedy | Finance Manager |